# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Carwe

**Ysgol Gynradd Carwe**
**Carwe**
**Cydweli**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA17 4HE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Carwe

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Carwe |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Tracey James |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Tracey James a Elsbeth Williams |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 9 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 9 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Iau rhwng 8:00 – 17:00<br><br>Dydd Gwener rhwng 8:00 a 15:45 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg, ac yn bwriadu bod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 17 Chwefror 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 14 Gorffennaf 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 14/06/2022 |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1   Cryfhau medrau llafar y plant

A2  Ffurfioli prosesau rheoli perfformiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol am eu chwarae a’u dysgu. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf yn mynegi’n eiddgar ble maent eisiau chwarae, ac yn dewis naill ai i fynd tu allan neu i ddewis aros tu mewn. Maent yn hapus i ddewis adnoddau ac yn cyd-chwarae’n dda, er enghraifft wrth ddewis dillad addas i’r doliau gan ddynwared rôl gofalwr.

Mae bron bob plentyn yn gwneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â’u gweithgareddau a gyda phwy i chwarae. Maent yn gwneud dewisiadau perthnasol gan ddilyn eu diddordebau. Mae bron bob un yn dechrau ar weithgareddau’n annibynnol a heb anogaeth ymarferwyr, er enghraifft wrth ddefnyddio’r tap allanol er mwyn llenwi’r twba dŵr. Mae bron bob un yn awyddus i chwarae â’u cyfoedion, ac maent yn rhoi cyfarwyddyd i’w gilydd, wrth deithio lawr y llwybr yn gyflym ar y beic. Mae bron pob plentyn yn parchu eraill ac yn sensitif i deimladau eraill, yn enwedig wrth gymryd tro neu aros am gael defnyddio tegan penodol.

Mae bron bob plentyn yn teimlo’n gartrefol iawn ac yn ymlacio’n llwyr wrth chwarae. Maent yn gwbl gyfarwydd â’r arferion dyddiol ac yn ymgartrefu’n gyflym wrth gyrraedd. Maent yn ymdopi heb drafferth wrth wahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr gan wenu wrth gyrraedd a gadael y lleoliad. Mae bron bob un yn gwrando’n dda ar gyfarwyddiadau. Er enghraifft, maent yn rhoi’r gorau i’w gweithgareddau yn ddiffwdan ar gais yr ymarferwyr i dacluso. Mae’r plant yn ffurfio perthynas gadarnhaol gydag ymarferwyr a’u cyfoedion. Maent yn hollol gyfforddus i fynd at ymarferwyr, gan wybod y byddant yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi, er enghraifft wrth estyn eu diod neu i fynd i’r tŷ bach.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diddorol sy’n eu hysgogi a’u cadw’n brysur. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn rhannu adnoddau’n  gyson. Mae bron bob un yn awyddus i ymgymryd â’r gweithgareddau sydd ar gael ac yn hyderus i newid trywydd y gweithgaredd i’r hyn sy’n eu diddori; er enghraifft, maent yn llunio yn yr ewyn eillio yn lle defnyddio’r ewyn fel sment i’r briciau adeiladu. Maent yn gysurus wrth symud o un gweithgaredd i’r llall, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio’n  dda am gyfnodau hir.

Mae bron bob plentyn yn frwdfrydig wrth ddysgu medrau newydd ac maent yn arbrofi ag amrywiaeth o gyfleoedd chwarae diddorol yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o blant yn annibynnol iawn. Er enghraifft, maent yn dewis eu ffrwyth yn frwdfrydig a’u gosod mewn powlen adeg byrbryd. Mae’r rhan fwyaf o blant yn golchi a sychu eu dwylo yn annibynnol heb anogaeth yr ymarferwyr, cyn bwyta eu cinio a'u byrbryd. Mae’r ychydig iawn sydd yn gofyn am gymorth yn cael eu hannog i fentro’u hunain yn gyntaf er mwyn gwella'u medrau annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn cyd-chwarae’n  bwrpasol, ac yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o

blant yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, datrys problemau a datblygiad corfforol yn bwrpasol, sy'n effeithio'n llwyddiannus ar eu dysgu a'u medrau gwybyddol.

Mae'r bron bob un o'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n astud ac yn gweithredu arnynt yn gynhyrchiol. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau'n ddiwyd wrth adeiladu muriau castell gyda briciau sbwng a sment hufen eillio. Mae llawer yn ceisio cyfathrebu'n glir wrth ymateb i straeon, mynegi teimladau a rhannu syniadau. Er enghraifft, maent yn enwi a disgrifio'r dillad wrth wisgo dolis, ac yn gwneud penderfyniadau synhwyrol am ba ddillad sydd fwyaf addas i ba ddoli. Mae lleiafrif y plant yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn ystyrlon. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y plant yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon annibynnol a chyson.

Mae llawer o blant yn trin llyfrau'n hyderus, a'r rhan fwyaf yn mwynhau gwrando ar straeon ac yn ymateb iddynt â diddordeb. Er enghraifft, mae plant yn mwyhau ailadrodd stori 'Dicw' a rhannu ei guddfannau. Mae llawer yn gwneud marciau'n fwriadus gyda chyfryngau gwahanol fel sialc a phaent ac maent yn olrhain patrymau ar lechi electronig yn ddestlus. O ganlyniad, maent yn mwynhau eu profiadau ysgrifennu cynnar ac yn esbonio pwrpas eu hysgrifennu'n ystyrlon.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau mathemategol da ac yn defnyddio iaith fathemategol syml yn eu chwarae gyda chymorth. Er enghraifft, maent yn llunio siapiau 2D gwahanol yn y tywod, a chymharu maint dinosoriaid drwy ddefnyddio geirfa fathemategol fel 'bach' a 'mawr'. Mae gan lawer ddealltwriaeth gadarn o rifau ac maent yn cyfrif gwrthrychau i 5 yn hyderus, gyda'r lleiafrif yn adrodd rhifau dros 20 yn dda. Yn ogystal, mae llawer o blant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol wrth arbrofi ac i ddatrys problemau, Er enghraifft, maent yn darganfod sawl rhawiad o dywod sydd ei angen i lenwi bwcedi gwahanol faint a thrwy ddatrys sut i gael olwyn i symud yn gyflymach gan ddefnyddio tywod.

Ar y cyfan, mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o'r plant yn datblygu'n briodol. Maent yn defnyddio peiriant darganfod metel yn addas i ddarganfod defnyddiau gwahanol yn annibynnol yn yr ardal mwd tu allan. Maent yn defnyddio apiau pwrpasol yn briodol i sganio cod QR er mwyn gwrando ar straeon a chaneuon.

Mae bron pob plentyn yn arbrofi a chwarae gydag offerynnau taro yn hyderus, yn mwynhau canu caneuon cyfarwydd ac yn ymuno'n frwdfrydig â dawnsfeydd. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau corfforol yn dda iawn trwy ystod o weithgareddau diddorol y tu mewn a thu allan. Enghreifftiau da o hyn yw wrth sgrialu i fyny ac i lawr llethr ar feiciau cydbwyso ac wrth fowldio, gwasgu ac ymestyn toes i greu 'trychfilod'.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau'n dda ac yn dilyn gweithdrefnau'n effeithiol i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r holl ymarferwyr wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn hyderus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan bob un o'r ymarferwyr. Maent yn sicrhau bod cofnodion damweiniau, gyda'r holl

fanylion perthnasol, yn cael eu llenwi'n fanwl ac yn rhannu'r rhain gyda'r rhieni a gofalwyr.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth glir o ddymuniadau ac anghenion unigol y plant. Maent yn datblygu perthynas effeithiol, gynnes a naturiol gyda'r plant. Maent yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am y plant gan rieni a gofalwyr, cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion a'u diddordebau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blentyn sydd newydd ddechrau yn y lleoliad wrth gynnig cyfleoedd iddynt ymlacio gyda'r hyn sy'n gwneud iddynt deimlo'n gysurus.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd niferus i'r plant  rannu offer wrth iddynt chwarae tu allan a thu fewn. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol drwy roi clod i'r plant ar lafar ac yn weledol gyda sticeri. Maent yn sicrhau eu bod yn canmol y plant yn aml sy'n datblygu eu hunanhyder a'u dealltwriaeth o barchu ei gilydd yn llwyddiannus. Maent yn creu amgylchedd hapus iawn, lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae rhyngweithio rhwng yr ymarferwyr â'r plant yn gadarnhaol a charedig ac maent yn dangos urddas a pharch tuag at y plant yn gyson. Er enghraifft, maent yn frwdfrydig wrth ysbrydoli'r plant i ymateb yn egnïol i weithgareddau yn yr ardal allanol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r plant  ddatblygu dealltwriaeth o'u Cymreictod ac o'r byd ehangach. Maent yn hyrwyddo a dysgu sut i drin pobl o bob diwylliant gyda pharch. Er enghraifft, maent yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, yn ogystal â Diwali a Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r ymarferwyr yn frwdfrydig wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson yn y gweithgareddau ac wrth sgwrsio yn naturiol â'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a lles y plant yn effeithiol drwy gynnig byrbrydau a diod iach, sy'n cynnwys ffrwythau ffres a dŵr. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid manwl, ac mae'r arferion wedi eu hymgorffori'n bwrpasol yn arferion dyddiol y plant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn treulio cymaint o amser â phosibl yn yr awyr iach. O ganlyniad, maent yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol yn llwyddiannus ac yn darparu cyfleoedd cyson i blant ddatblygu agweddau anturus a medrus tuag at ddysgu.

Mae ymarferwyr yn manteisio'n rhagweithiol ar wasanaethau a phartneriaethau i ddarparu cymorth pwrpasol i'r plant, sy'n cynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Manet yn cynnig darpariaeth effeithiol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys rhaglenni cefnogi pwrpasol. Maent yn olrhain cynnydd y plant hyn mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau unigol, a'u cynnydd o'u mannau cychwyn.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn ac yn gweithredu cwricwlwm difyr er lles y plant. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel, a thrwy ymateb i ddiddordebau plant, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ac amrywiol sy'n ennyn

diddordeb pob plentyn yn bwrpasol, fel chwarae adeiladu a gyda dinosoriaid. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu a chwarae gwerthfawr tu fewn a thu allan i'r adeilad. Enghraifft nodedig o hyn yw'r cyfle i ddatrys problemau wrth ddefnyddio offer gwahanol, fel rhaw, rhidyll a darganfyddydd metel i chwilio am ddeunyddiau amrywiol ymysg y pridd.

Mae ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn effeithiol ac yn ymwybodol o bryd i ymuno yn y chwarae a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i fodelu'r dysgu. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau arsylwi i asesu datblygiad y plant yn effeithiol gan addasu'r ddarpariaeth yn briodol yn sgil y wybodaeth hon.

Mae'r holl ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn effeithiol gan gyflwyno patrymau iaith, geirfa ac ymadroddion, a chanu hwiangerddi bywiog. Er hyn, nid oes bob tro ddigon o gyfleoedd i'r plant ailadrodd a gorgyffwrdd ar batrymau iaith. Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau gan holi'r plant yn fedrus, sy'n effeithio'n bwrpasol ar wella eu dealltwriaeth a'u medrau. Er enghraifft, maent yn atgyfnerthu geirfa wyddonol fel 'arnofio' a 'suddo' wrth chwarae yn y dŵr a geirfa fathemategol fel 'mwyaf' a lleiaf' wrth gymharu dinosoriaid.

Mae arfer gyson yr ymarferwyr o annog plant i ddefnyddio'u medrau rhifedd wrth gyfri gwrthrychau, cyfatebu a threfnu rhifau, a gwario ceiniogau i brynu cynnyrch o'r siop, yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau cynnar TGCh y plant yn datblygu'n briodol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n ddoeth i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant. Er enghraifft, maent yn eu hannog i berfformio ystumiau priodol wrth ganu ac i fentro ac arbrofi symud mewn amrywiaeth o ffurfiau.

Mae'r llu o weithgareddau awyr agored yn annog plant i fentro, dod yn archwilwyr hyderus o'u hamgylchedd ac i ddangos gofal a pharch at bethau byw. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i ofalu am blanhigion yn yr ardd a'u dyfrio'n ddyddiol, ac i drosglwyddo'r bwystfilod bach maent yn eu darganfod i'r 'Gwesty'r Trychfilod' i'w cadw'n ddiogel.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddysgu am ddathliadau gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Yn ogystal, maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus, fel traddodiadau Dydd Gŵyl Dewi, Eisteddfod a chanmlwyddiant yr Urdd.

Yn ystod y pandemig, cynigiodd y lleoliad gyfarfodydd rhithiol i rieni a gofalwyr i drafod cynnydd eu plant. Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth am gyflawniadau eu plant yn briodol i rieni a gofalwyr dros gyfryngau cymdeithasol ac ar lafar wrth ddrws y lleoliad.

**Yr amgylchedd:**

Mae ansawdd yr amgylchedd yn hynod gyfoethog ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd yn ystyriol i sicrhau ardaloedd diddorol ac ysgogol, sy'n darparu profiadau arbennig i'r plant. Mae'r ystafell yn olau a deniadol ac mae ardaloedd pwrpasol i blant ddatblygu'n greadigol, i orffwys, i fwyta'n annibynnol ac i eistedd gyda'i gilydd yn

ystod amser cylch. Mae’r drysau o'r brif ystafell i’r ardal allanol yn agored drwy’r sesiwn ac, o ganlyniad, gall y plant ddewis ble i chwarae yn ôl eu dymuniad. Mae’r amgylchedd allanol yn cynnig gofod helaeth â chyfleoedd cyffrous i blant chwarae a dysgu yn yr awyr iach.

Mae’r adnoddau tu mewn a thu allan o ansawdd uchel iawn, yn lân ac yn hawdd eu cyrraedd, sy’n galluogi’r plant i wneud dewisiadau annibynnol. Ceir amrywiaeth o adnoddau sydd o fewn cyrraedd y plant ymhob ardal, gan gynnwys adnoddau sy’n hybu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal. Er enghraifft, mae doliau o wahanol ddiwylliannau, gwisgoedd crefyddol a chymeriadau sy’n hybu cyfle cyfartal. Mae’r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn cadw’r amgylchedd a’r offer yn lân ac mewn cyflwr priodol. Maent yn cynnig cyfleoedd da iawn i blant ddefnyddio’r toiled a’r basnau golchi dwylo yn annibynnol.

Mae’r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch a’r angen i gynnal driliau tân rheolaidd. Mae’r safle yn ddiogel ac mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod y drysau ar glo a bod cofnod o bob ymwelydd. Mae asesiadau risg priodol yn eu lle sydd yn adnabod, lleihau ac atal risg i blant.

Mae’r arweinwyr a’r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau ysgogol i gyfoethogi profiadau’r plant, sy’n datblygu eu medrau a’u gwybodaeth yn llwyddiannus. Maent yn addas ac yn briodol i oedrannau’r plant ac mae’r ardaloedd yn cynnwys eitemau pwrpasol sy’n cyfoethogi’r chwarae, er enghraifft padell ffrio ac offer coginio yn y cegin fwd. Yn ogystal, trwy arddangos a dathlu gwaith y plant ar furiau’r ystafell, mae’r ymarferwyr yn creu ymdeimlad o falchder ac o berthyn i’r plant sy’n creu naws groesawgar i bawb sy’n ymweld â’r lleoliad.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan y person â gofal a’r pwyllgor rheoli sefydlog weledigaeth glir sy’n llywio cyfeiriad pwrpasol i weithdrefnau’r lleoliad. Mae’r weledigaeth yn seiliedig ar sicrhau darparu gwasanaeth o safon uchel o ran lles, gofal a dysgu’r plant o fewn awyrgylch teuluol, ysgogol a hapus. O ganlyniad, mae’r arferion cyson a pholisïau’r lleoliad yn canolbwyntio’n gadarnhaol ar fodloni anghenion y plant.

Mae’r person â gofal yn cydweithio’n gwybodus gyda’r ymarferwyr ymroddedig i gymell y plant i wella’u gwaith yn gyson trwy addysgu bwriadus a chefnogaeth frwd.

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau ei gilydd, rhieni a gofalwyr, y plant, yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin. Maent yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda holl gymuned y lleoliad, ac maent yn gwneud defnydd gwerthfawr o’u cyfraniadau i wella’r ddarpariaeth a phrofiadau’r plant. O ganlyniad, mae’r gweithdrefnau yn effeithio’n gadarnhaol ar wella’r agweddau sydd angen eu datblygu. Er enghraifft, maent wedi gwneud defnydd pwrpasol o gyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth am weithgareddau’r plant gyda’u rhieni a gofalwyr.

Mae aelodau’r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac maent yn gwrando’n synhwyrol ar awgrymiadau’r person â gofal a swyddogion yr asiantaethau cefnogi i wneud gwelliannau. Mae gan y pwyllgor rheoli drefniadau cyson i fonitro arferion y lleoliad.

Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth gadarn iddynt o'r cryderau a'r meysydd ar gyfer gwella. Mae gan y person â gofal a'r pwyllgor rheoli weithdrefnau recriwtio addas ac maent yn darparu cymorth da ar gyfer sefydlu ymarferwyr newydd. Mae prosesau anffurfiol ar gyfer goruchwylio ac arfarnu gwaith ymarferwyr, sy'n arwain at dargedau cytunedig priodol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi eu ffurfioli'n  ddigon cadarn.

Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n  briodol ac yn sicrhau digon o ymarferwyr cymwys. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ymarferwyr  fynychu hyfforddiant perthnasol i fodloni anghenion y plant, er enghraifft wrth sicrhau hyfforddaint TGCh i wella'r darpariaeth.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd doeth o gyllid i gefnogi gosod blaenoriaethau gwella a diwallu anghenion plant. Er enghraifft, yn ddiweddar, trwy gyllido gwelliannau yn yr ardal allanol, darparwyd adnoddau deniadol o ansawdd da sy'n cefnogi dysgu'r plant ac yn cyfoethogi eu profiadau'n  effeithiol.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu partneriaeth fuddiol iawn gyda rhieni. Er enghraifft, mae arweinwyr yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am weithgareddau drwy wefan gymdeithasol ac wrth drafod cynnydd y plant a sut i helpu gyda dysgu adref yn rheolaidd. Yn ogystal, mae partneriaeth lwyddiannus rhwng yr ysgol a'r lleoliad, i rannu arbenigedd a'r safle yn ddeallus. O ganlyniad, mae trefniadau da ar waith i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo i'r cam nesaf yn eu haddysg yn ddidrafferth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  16/08/2022